



**CYNGOR TREF
LLANFAIRFECHAN
TOWN COUNCIL**



Neuadd Gymunedol Tref Llanfairfechan , Ffordd y Pentref, Llanfairfechan
LL330AB

**COFNODION CYFARFOD LLAWN Y CYNGOR TREF AR NOS FERCHER,
CHWEFROR YR 2^{il} 2022**

Yn bresennol: Cadeirydd: Y Faeres Penny Andow; Dirprwy Faer Gyng Christopher Jones; Cyng Laura Fielding; Cyng Carol Gell; Cyng Andrew Hinchliff; Cyng Claire Hughes; Cyng Nia Jones; Cyng Alun Rhys Jones; Cyng Gareth Wyn Jones; Cyng Delohne Merrell; Cyng Christine Roberts
Roedd yr ymgeiswyr i'w Cyfethol hefyd yn bresennol, Leena Farhat; Louise Hibbert: Elgan Owen

193. Croeso gan Gadeirydd y Cyfarfod

194. Derbyn ymddiheuriadau am absenoldebau Dim ymddiheuriadau Penderfynwyd derbyn a nodi

195. Derbyn datganiadau o ddiddordeb – yn unol â Chod Ymddygiad Llywodraeth Leol

Datganodd y Cyng A Hinchliff ei ran ar Bwyllgor Cynllunio CBSC ond cadarnhaodd bod modd iddo aros yn y cyfarfod os nad yw'n gwneud sylwadau ar ei fwriad i bleidleisio

Y Faeres Gyng Penny Andow Eitem 7 fel Cadeirydd y Banc Bwyd ac Eitem 16:1 Gwahoddiad i Balas Buckingham

Cyng Alun Jones Eitem 7 fel gwirfoddolwr ar ran y Banc Bwyd Penderfynwyd derbyn a nodi

196. Derbyn sylwadau ac ymholiadau gan y cyhoedd:

1. Bu i breswlydd godi pryderon ynghylch diogelwch ffordd yn y pentref uchaf. Mae'r sefyllfa'n mynd yn fwyfwy peryglus o ddydd i ddydd ac mae yna bryderon y bydd yn achosi damwain. Fe ddylai CBSC a'r Cyngor Tref gynnal asesiad risg i asesu'r broblem cyn y bydd digwyddiad difrifol. Cytunwyd bod hyn yn broblem heriol sydd yn sgil gormod o geir yn defnyddio ffyrdd y pentref. Cafodd llinellau newydd eu llunio yn sgil yr adolygiad parcio er mwyn mynd i'r afael gyda phwyntiau pwysau penodol. Yn sgil trosglwyddo'r tir yn Nant y Pandy, bydd lleoedd parcio wedi'u diogelu ar gyfer preswylwyr ac fe ddylai hyn leddfu'r broblem ar Ffordd y Pentref. Bellach mae'r Sir yn meddu ar bolisi lle na cheisir unrhyw leoedd parcio ychwanegol. Clerc i e-bostio'r gwasanaethau parcio yn brydlon i ofyn oes modd cwblhau asesiad risg.

2. Bu i breswlydd godi'r cwestiynau canlynol dros e-bost ac fe dderbyniodd yr aelodau etholedig gopi:

Trwsadau i ffyrdd lleol – y Clerc i gysylltu gyda CBSC i drafod y mater sydd wedi'i godi.

Diogelwch plant ysgol a'r cyhoedd – Bu i breswlydd holi oedd modd rhoi mesurau lleddfu traffig ar waith. Soniodd y Cyngor ydd Sir bod parthau 20 mya ar fin cael eu cyflwyno ym mhob ardal drefol yn y dyfodol agos ac fe ddylai hynny helpu. Bu i Swyddog Hyfforddi a Goruchwylio Traffig CBSC sôn bod llawer o waith wedi'i gwblhau gyda rhieni yn yr ysgolion i godi ymwybyddiaeth ynghylch diogelwch. Bu i'r Cyngor Tref drafod agor y barrau yn Yr Heath gyda CBSC er mwyn i'r rhieni allu defnyddio'r maes parcio. Yn y pen draw, y rhieni sy'n gyfrifol am barcio a gyrru'n ddiogel o amgylch yr ysgolion. At hyn, fe geisiodd y Cyngor Tref sefydlu grŵp Gwylio Cyflymder yn y pentref ond nid oedden nhw wedi llwyddo i recriwtio gwirfoddolwyr. Fe gytunwyd y dylid ystyried yr opsiwn hwnnw unwaith eto – Clerc i ymchwilio'r broses ac adrodd yn ôl. Fe gytunodd y preswlydd i fod yn rhan o'r broses hwn a bydd y drafodaeth yn parhau dros e-bost. Soniwyd hefyd y gallai ffurfio grŵp Gwylio Cyflymder fynd i'r afael gyda phryderon y preswlydd o ran pen Pendalar Ffordd Penmaenmawr y soniwyd amdany'n nhw mewn cyfarfod blaenorol.

Llwybrau beicio – mae'n anodd cynllunio hyn nes y byddwn yn derbyn adroddiadau gan banel gwaith cyffordd yr A55. Fodd bynnag, bydd y Cyngor Tref yn codi hyn unwaith y bydd y sefyllfa yn fwy eglur.

Yn sgil pwysau o ran amser, cytunwyd y byddai'r Clerc yn adrodd yn ôl i'r preswylwyr am y materion canlynol: Biniau baw ci; Coed crog peryglus. Caiff yr holl faterion hyn eu trafod yn barhaus ac fe gaiff adroddiadau yn eu

cylich eu cyflwyno'n rheolaidd. Gallai'r preswylwyr gynnig sylwadau drwy glicio'r ddolen ganlynol: <https://www.conwy.gov.uk/en/Resident/Report-Pay-Apply/Report-it/Report-it.aspx> Soniwyd bod modd codi'r materion hyn yn ein cyfarfod diogelwch cymunedol yn fuan. Penderfynwyd derbyn a nodi

197. Derbyn a chymeradwyo cofnodion Ionawr y 12^{fed} 2022 a Rhestr Weithredu Chwefror yr 2^{il} 2022
Fe ddosbarthwyd y cofnodion cyn y cyfarfod ac maen nhw wedi'u nodi wedi'u darllen.

Bu pryder ynghylch y cynnydd araf deg ynghylch maes parcio'r Prom. Clerc i ofyn i CBSC ddod i'r cyfarfod nesaf ac adrodd am y gwaith fel yr addawyd. Bydd rhaid cynnwys Aelod Cabinet CBSC dros yr Amgylchedd a Thrafnidiaeth yn y neges.

Soniwyd bod yr archeb am ddiffibriliwr wedi'i anfon ac mae'r Cyngor wedi talu amdano felly rydym yn disgwyl iddo gyrraedd.

Yn sgil diffyg amser, caiff y Rhestr Weithredu ei rhannu yn y cyfarfod ar Chwefror y 23^{ain}

Cynigwyd gan y Cyng A Hinchliff Eiliwyd gan y Cyng C Jones Yn unfrydol Penderfynwyd derbyn a nodi

198. Derbyn ceisiadau a chymeradwyo cyfethol preswylwyr i lenwi 2 x swydd wag Ward Bryn a Ward Lafan.

Bu i'r Aelodau Etholedig dderbyn pecynnau cais gan dri phreswilydd:

Cynigwyd gan y Cyng Laura Fielding Eiliwyd gan y Cyng Delohne Merrell - Leena Farhat

Cynigwyd gan y Cyng Claire Hughes Eiliwyd gan y Cyng Andrew Hinchliff - Louise Hibbert

Cynigwyd gan y Cyng Alun Rhys Jones Eiliwyd gan y Cyng Penny Andow - Elgan Owen.

Cafodd etholiad dros ZOOM ei gynnal er mwyn cofnodi'r bleidlais gyfrinachol a rhannu'r canlyniadau. Dim ond yr aelodau etholedig wnaeth fwrw pleidlais ac fe gafodd yr holl unigolion eraill eu symud i ystafell aros ZOOM yn ystod y bleidlais. Bu i'r Clerc rannu'r canlyniadau a gwneud copi o'r sgrin fel tystiolaeth. Pleidlais derfynol fel a ganlyn:

Ward Bryn

Ward Lafan

L Farhat 1 pleidlais

L Farhat 7 pleidlais

L Hibbert 2 pleidlais

L Hibbert 4 pleidlais

E Owen 8 pleidlais

Ni fu i E Owen geisio am swydd ar ran y ward hon

Bu i'r Clerc estyn diolch i bawb am fod yn amyneddgar yn ystod y broses dechnegol. Dydy'r cyfarfodydd ar-lein ddim yr un fath ond rydym yn gwneud ein gorau o dan yr amgylchiadau. Cafodd y canlyniad ei dderbyn a'i gofnodi ac fe estynnwyd croeso i'r aelodau etholedig newydd. Estynnwyd diolch i'r holl ymgeiswyr ac fe soniwyd am yr etholiadau Cynghorau Tref a Chymuned ym mis Mai. Bydd Conwy yn cysylltu gyda manylion pellach am hynny yn ystod y misoedd nesaf. Penderfynwyd derbyn a nodi

Bu i'r Dirprwy Faer Gyng Chris Jones gymryd yr awenau a chadeirio am weddill y cyfarfod

199. Derbyn a chymeradwyo cais grant s137 gan Fanc Bwyd Llanfairfechan

Bu i'r Aelodau Etholedig dderbyn y ffurflen gais a'r llythyr drwy'r post. Mae gan y Cyngor Tref £2000 yn eu presept ar gyfer y Banc Bwyd ond mae'r cais yn gofyn am £3000 yn sgil yr amgylchiadau presennol. Soniodd y Clerc bod y grŵp wedi bod yn danfon i dros 170 o gartrefi yn ystod y pandemig a bu'r costau misol dros £2000 yn aml. Mae'r grŵp yn derbyn cyfraniadau sylweddol yn sgil rhoddion elusennol misol ond nid yw'r rhain yn ddigon i dalu'r holl gostau. Dydy'r gwirfoddolwyr ddim yn hawlio am danwydd nac unrhyw gostau eraill ac mae yna bum gyrrwr gwirfoddol sy'n danfon pob wythnos. Soniwyd yn sgil y gost byw gynyddol, y byddai teuluoedd yn wynebu sefyllfaoedd mwy heriol fyth yn ystod y flwyddyn nesaf. Cyhoeddwyd bod costau bwyd wedi cynyddu dros 27% yn ystod y misoedd diwethaf.

Cynigwyd gan y Cyng D Merrell Eiliwyd gan y Cyng N Jones Yn unfrydol Penderfynwyd derbyn a nodi

200. Derbyn a chymeradwyo'r dyddiadau ar gyfer Marchnadoedd Crefftau a digwyddiadau Cymunedol 2022

Bu i'r Aelodau Etholedig dderbyn adroddiad gan y Swyddog Prosiect dros e-bost gyda rhestr o'r dyddiadau misol arfaethedig ar gyfer y digwyddiadau. Bu trafodaeth faith ynghylch y digwyddiadau ac fe gafodd y materion penodol canlynol eu trafod:

Byrddau ychwanegol Soniwyd bod byrddau ychwanegol ar gael yn Sefydliad yr Eglwys, Clerc i drefnu eu nôl nhw.

Baneri a Fflagiau Cytunwyd prynu dwy faner i hysbysebu'r farchnad yn yr ysgolion ynghyd â phrynu dwy fflag plu ar gyfer y tu allan i'r neuadd ar ddiwrnodau marchnad.

Llanfairfechan yn Dathlu Cytunwyd cynnal Llanfairfechan yn Dathlu ar ddiwrnod marchnad ar Fawrth yr 20fed. Mae trefniadau ar waith i ddefnyddio iard yr ysgol ar gyfer stondin cymunedol ac fe gytunwyd i drefnu rhywun i Beintio Wynebaw am ddim.

Digwyddiadau Ffeirio yn y marchnadoedd Yn dilyn llwyddiant y digwyddiadau ffeirio blaenorol, cytunwyd y byddai'r Cyngor Tref yn cynnal stondinau ffeirio ar y cyd â'r marchnadoedd i annog ymgysylltu ac ymgynghori.

Dathliadau Jiwbilî Bu'r Clerc yn ymchwilio opsiynau'n lleol. Mae Cyngor Tref Penmaenmawr yn cynnal diwrnod teulu ar ddydd Gwener, Mehefin y 3^{ydd} felly nid ydym am gynnal digwyddiad a fyddai'n cyd-daro â hwnnw. Mae'r prosiect Fflagiau Jiwbilî yn opsiwn ar gyfer dydd Sadwrn y 4^{ydd}. Bu i'r Clerc gynnig ddydd Sul, Mehefin y 5^{ed} fel dyddiad posibl ar gyfer Cinio Picnic Mawr ar y prom. Gellir annog teuluoedd i ddod draw gyda phicnic ac fe awgrymwyd cynnig adloniant hefyd. Mae Beulah Brass eisoes wedi cynnig dod draw i'r digwyddiad. Awgrymwyd y byddai'r Clwb Rotari yn fodlon helpu. Gofynnwyd i'r Pwyllgor Cyfryngau Cymdeithasol am gyflwyno holiadur ar Facebook i weld os oedd unrhyw ddiddordeb. Clerc i weithredu ynghylch hyn unwaith y caiff ei adrodd. Cynnig i brynu'r eitemau yn ôl y gofyn a chynllunio'r amserlen o ddigwyddiadau yn ôl y gofyn. Mae cyfarfod wedi'i drefnu gyda Thîm Digwyddiadau CBSC a'r Clerc i wirio dyddiadau arfaethedig Gŵyl y Gaeaf ac i wirio oes modd defnyddio maes parcio Yr Heath ar gyfer y ffair.

Cynigwyd gan y Cyng D Merrell Eiliwyd gan y Cyng N Jones Yn Unfrydol Penderfynwyd derbyn a nodi

201. Derbyn a thrafod cynlluniau ar gyfer meinciau cymunedol newydd

Awgrymwyd y dylid ystyried y mater hwn yn ystod eitem 8.1 fel rhan o brosiect Glan y Môr Elias. Soniwyd bod tri ymholiad wedi'u cyflwyno ynghylch meinciau coffa ac fe allai hyn helpu gyda'r costau. **Penderfynwyd derbyn a nodi**

202. Derbyn gwybodaeth a thrafod Coeden a Goleuadau Nadolig 2022

Soniwyd bod y Cyngor wedi cysylltu gyda masnachwyr lleol am y syniad y gallan nhw osod y goleuadau Nadolig ar gyfer y flwyddyn nesaf. Er gwaethaf y cyfyngiadau, mae'n bosibl y bydd modd gosod goleuadau mewn manau preifat fel y neuadd ac ar dai Ffordd yr Orsaf. Eglurodd y Clerc bod y rheolau newydd yn berthnasol i unrhyw beth sydd wedi'i osod ar y briffordd felly mae angen gwirio gyda CBSC cyn bwrw iddi gyda'r cynlluniau. Bu hefyd adroddiadau nad oedd y Goeden Nadolig yn ddigon mawr y llynedd. Soniwyd byddai angen Casglwr Ceirios ar gyfer coeden fwy. Roedd yr aelodau o'r farn bod gan bentrefi eraill oleuadau llawer gwell. Fodd bynnag, ni phenderfynodd y Cyngorau Tref eraill i gefnogi prosiect coeden solar i ddiogelu'r amgylchedd. Os ydy'r Cyngor Tref yn penderfynu cael goleuadau trydan, bydd angen i'r rheoliadau newydd lywio'r broses. Y Clerc i ofyn i dîm CBSC am fynychu swyddfa'r Cyngor Tref i lywio'r penderfyniad gan edrych tua'r dyfodol. **Penderfynwyd derbyn a nodi**

203. Derbyn a chymeradwyo cynlluniau ar gyfer ceisiadau grant allanol ar gyfer y prosiectau canlynol:

1. **Cais Dŵr Anafon Morfa Madryn.** Nod y prosiect ydy uwchraddio a datblygu cronfa ddŵr Morfa Madryn i annog defnydd ehangach gan deuluoedd gyda phlant o bob oedran. Mae'r ffurflen gais yn barod i'w hanfon at Dŵr Anafon. Clerc i weithredu ac adrodd yn ôl y cyfarwyddyd.

2. **Cais Galluogi Adnoddau Naturiol a Llesiant (EnRaw) Glan y Môr Elias** Nod y prosiect hwn ydy ennyn diddordeb yn y llwybr drwy Glan y Môr Elias gyda byrddau gwybodaeth hanesyddol ac amgylcheddol ynghyd â bwrdd panoramig o'r mynyddoedd sydd yn y golwg. Fel rhan o'r prosiect, gellir cynnig meinciau clwydo naturiol ac arwyddion gwell ar y promenâd. Gellir hefyd cynnig lloches ger y bont droed os na ellir dod o hyd i gyllid arall ar gyfer hyn. Y cam nesaf ydy cynnal cyfarfod safle i lunio Datganiad o Ddiddordeb i'w rannu cyn gynted â phosib. Caiff aelodau etholedig eu hysbysu o'r cynnydd.

3. **Arddangosfa lluniau a Hanesion Personol yn Neuadd Gymunedol y Dref.** Cysylltwyd â'r Clerc gyda'r syniad hwn ac mae yna nifer o ffotograffwyr rhagorol a allai fod eisiau cymryd rhan. Mae'n bosibl bod hyn yn syniad y dylai'r Neuadd Gymunedol geisio am gyllid ar ei gyfer a'i drefnu. Clerc i ymchwilio ac adrodd yn ôl gan ei fod yn ystod y cam datblygu a'r cam ymgeisio'n unig. **Penderfynwyd derbyn a nodi**

204. Derbyn a chymeradwyo Adroddiadau Ariannol Ionawr

Ni dderbyniwyd unrhyw ymholiadau ac fe gafodd yr adroddiad ariannol ei dderbyn a'i gymeradwyo

Cynigwyd gan y Cyng A Hinchliff Eiliwyd gan y Cyng L Fielding Yn unfrydol Penderfynwyd derbyn a nodi

205. Derbyn a chymeradwyo taliadau ar gyfer Chwefror 2022

1. Cyflogau'r Staff a chyfraniadau pensiwn Chwefror y Gweithwyr a'r Cyflogwr £4577.28 (yn cynnwys cyllid Byw'n Dda)
2. Cyfieithiadau Menter Iaith Rhagfyr/ Ionawr £302.26

3. Anfoneb Viking (ddim i'w dalu gan fod yna arian yn weddill) £80.78
4. Tystysgrif blynyddol SMTP Delwedd £25.20
5. Gwaith gweinyddu a gosod y troli cyfryngau Huw Aled Jones £250.00

Cynigwyd gan y Cyng N Jones Eiliwyd gan y Cyng C Gell Yn unfrydol Penderfynwyd derbyn a nodi

206. Trafod materion cynllunio

0/49331 Ysbyty Bryn Y Neuadd, Uned Ddiogel Tŷ Llewelyn, Ffordd Aber, Llanfairfechan LL33 0HH
Coridor cyswllt un llawr

Ni godwyd unrhyw sylwadau ac fe gytunwyd y dylai'r ymgeiswyr gydymffurfio gyda chyngor a gofynion Swyddogion Cynllunio CBSC. Penderfynwyd derbyn a nodi

207. Derbyn gohebiaeth – caiff y rhan fwyaf o'r ohebiaeth ei rannu dros e-bost yn ystod y pandemig Covid-19

1. Llythyr ynghylch gwahoddiad i Balas Buckingham. Cynigwyd enwebu'r Faeres Penny Andow am ei gwaith fel Maeres a Chadeirydd Banc Bwyd Llanfairfechan.

2. Llythyrau i'r Prosiect Cymorth Stryd. Mae'r Clerc yn derbyn nifer cynyddol o lythyrau ac e-byst gan breswylwyr sydd angen cymorth gyda gwasanaethau lles. Gan fod y llythyrau hyn yn cynnwys data personol, nid oes modd eu rhannu mewn cyfarfod cyhoeddus o'r Cyngor Tref. Mae'r Clerc yn mynd i'r afael â nhw gydag e-bost yn cynnwys dolenni lles ac fe gân nhw eu trafod gyda'r Tîm Rheoli Argyfwng pan fo'n briodol. Penderfynwyd derbyn a nodi

208. Derbyn adroddiadau o wahanol gyfarfodydd

Clerc y Dref – Cyfarfod Achub Bywyd o'r Môr Llanfairfechan. Maen nhw wrthi'n sefydlu'r grŵp ond maen nhw'n derbyn cefnogaeth dda gan Roger Pierce a hyfforddwyr ardstyiedig eraill sydd wrthi'n gweithio ar y prosiect achub bywyd o'r môr ym Mae Colwyn. Bydd cyfle i bobl o bob oed gymryd rhan a bydd modd cwblhau hyfforddiant a derbyn tystysgrifau ar amrywiaeth o wahanol lefelau. Fel cynrychiolydd ar ran y Cyngor Tref, fe wnes i sôn ein bod ni wedi archebu diffibriliwr ac rydym yn bwriadu cydweithio gyda Chlwb Hwyllo, Seagrass i ofalu am y cyfarpar. Fe gadarnhawyd y byddai Gwasanaeth Ambiwylans Cymru yn cynnal yr hyfforddiant. Fe wnes i hefyd roi gwybod i'r grŵp am gefnogaeth llywodraethu gan CGGC i sefydlu eu pwyllgor â'u polisiau gwirfoddolwyr.

Y Cyng Andrew Hinchliff – mynychodd gyfarfod am Awel y Môr. Bydd melinau gwynt y gellir eu gweld o Llanfairfechan yn rhan o'r prosiect ond ni fydd yn effeithio'r olygfa cymaint â Llandudno neu Ynys Môn gan y byddan nhw wedi'u gosod ger troed y Gogarth. Bu Ymgynghoriad Cyhoeddus ar gael yn y llyfrgell a bydd ar gael unwaith eto wrth i'r prosiect ddatblygu.

Y Cyng Chris Jones – Cyfarfod Pwyllgor Neuadd Gymunedol y Dref

Mae'r grŵp wedi cyfarfod ond does dim byd sylweddol i'w adrodd

Penderfynwyd derbyn a nodi

209. Derbyn sylwadau a chanmoliaethau brys

1. Cwestiwn ychwanegol gan breswilydd – cynlluniau i osod diffibriliwr ar y stâd diwydiannol. Clerc i e-bostio'r manylion.
2. Soniwyd bod Llanfairfechan wedi ennill statws Cymuned Di-blastig. Estynnwyd llongyfarchiadau i'r Cyng Laura Fielding am ei gwaith. Awgrymwyd y gellir cynnal stondin dathlu yn un o'r marchnadoedd.
3. Estynnwyd diolch i'r Cyngor Tref am eu pleidlais ac estynnwyd llongyfarchiadau i'r Cynghorwyr newydd

Daeth y cyfarfod i ben am 9:10yh Cyfarfod Nesaf: Cyfarfod y Cyngor Tref am 7yh ar nos Fercher, Chwefror y 23ain 2022

Mae cyfarfod hybrid wedi'i drefnu ac mae modd i Aelodau Etholedig fynychu Siambr y Cyngor neu ymuno dros ZOOM.